4	<i>Annog eu staff sy'n siarad Cymraeg i wisgo bathodyn a ddarperir gan y Bwrdd lechyd Lleol sydd yn cyfleu bod y sawl sy'n ei wisgo yn gallu siarad Cymraeg</i>	<i>Annog eu staff sy'n siarad Cymraeg i wisgo bathodyn / llinyn a ddarperir gan y Bwrdd lechyd Lleol sydd yn cyfleu bod y sawl sy'n ei wisgo yn gallu siarad Cymraeg neu yn dysgu Cymraeg; a rhannu'r wybodaeth honno gyda chleifion ac aelodau'r cyhoedd ar wefan y contractwr ac wrth arddangos arwyddion a hysbysiadau</i>	Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn paratoi ystod o adnoddau 'laith Gwaith' sy'n cynnwys llinynnau yn ogystal â bathodynnau. Ceir, yn ogystal llinynnau 'Dysgwyr'. Byddai hysbysu cleifion ac aelodau'r cyhoedd am y siaradwyr Cymraeg ymhlið darparwyr yn eu galluogi i baratoi ar gyfer ddefnyddio'r Gymraeg wrth gael mynediad at wasanaethau.
5	<i>Annog y rhai sy'n darparu gwasanaethau i ddefnyddio gwybodaeth a/neu fynychu cyrsiau a digwyddiadau hyfforddi a ddarperir gan y BILI, fel y gallent ddatblygu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth o'i hanes a'i rôl yn</i>	<i>Rhyddhau'r rhai sy'n darparu gwasanaethau i ddefnyddio gwybodaeth a/neu fynychu cyrsiau a digwyddiadau hyfforddi a ddarperir gan y BILI, fel y gallent ddatblygu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth o'i hanes a'i rôl yn</i>	Cafwyd sawl enghraift yng Nghymru o aelodau staff y Byrddau lechyd yn cael eu rhyddhau i ddysgu Cymraeg er mwyn cynnig gwasanaeth Cymraeg i'w cleifion. Mae'r diwygiad yn adlewyrchu pwysigrwydd trefniadau o'r fath a'r modd y gellid eu hymestyn.

	<i>niwylliant Cymru) a dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio'r Gymraeg wrth gyflwyno gwasanaethau.</i>	<i>niwylliant Cymru); dysgu Cymraeg, neu loywi eu Cymraeg a datblygu dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio'r Gymraeg wrth gyflwyno gwasanaethau.</i>	
6	<i>Annog y rhai sy'n darparu gwasanaethau i sefydlu a chofnodi'r dewis iaith Gymraeg neu Saesneg a fynegir gan neu ar ran y claf</i>	<i>Sicrhau bod y rhai sy'n darparu gwasanaethau yn rhoi cynnig rhagweithiol o wasanaethau Cymraeg a sefydlu a chofnodi'r dewis a/neu angen am iaith Gymraeg a fynegir gan neu ar ran y claf; a throsglwyddo'r wybodaeth honno wrth gyfeirio cleifion ar hyd y llwybr gofal ac at wasanaethau eraill</i>	Dywed Comisiynydd y Gymraeg (2014) fod MNG (LLC 2012) yn gosod 'seiliau cychwynnol ar gyfer cynnig gwasanaethau yn rhagweithiol. Fodd bynnag nid yw'r camau hyn yn ddigon pellgyrhaeddol nac yn cynnig arweiniad digonol i'r sector gofal sylfaenol.' Gyda'r symudiad tuag at integreiddio darpariaeth gofal sylfaenol a chymunedol, disgwylir y bydd systemau electronig dwyieithog yn eu lle a fydd yn galluogi cofnodi'r cynnig rhagweithiol a gofynion iaith cleifion. Yn y cyfamser, nid yw'r diwygiadau yn cyfyngu darparwyr i'r systemau electronig hyn yn unig.

Yn ogystal â'r chwe phwynt uchod, mae'r Gymdeithas yn gryf o'r farn y dylid ychwanegu'r dyletswyddau canlynol, (gweler 7 ac 8 isod) er mwyn annog darparwyr i flaengynllunio o ran recriwtio a dyrannu staff sy'n siarad Cymraeg. Mae cynnal ansawdd gwasanaethau yn holol ganolog i'r cytundebau. Mae'r diwygiadau yn cydnabod bod unrhyw ymdrech i hwyluso gwasanaethau wyneb yn wyneb yn Gymraeg yn fodd i wella ansawdd y gofal a ddarperir, yn enwedig ar gyfer cleifion bregus.

- 7) *hwyluso gwasanaethau wyneb yn wyneb yn Gymraeg, gan gynnwys mewn derbynfeydd a lleoliadau gwasanaeth eraill;***
- 8) *hwyluso cyfarfodydd personol yn Gymraeg, gan gynnwys cyfarfodydd sy'n ymwneud â lles personol.***

Nodwyd pwysigrwydd eithriadol y ddua gymal uchod gan Aelodau Cynulliad o bob plaid yn eu hadroddiad ar y mater ym mis Mawrth 2018 (Rhif 7)<sup>1</sup>.

Ymhellach, credwn fod angen, yn y cytundeb, rôl swyddogol er mwyn i'r Comisiynydd fonitro a gorfodi'r amodau iaith ynddo, megis drwy gymal sy'n amlinellu rôl ffurfiol yn broses gwyno. Fel arall, rydym yn bryderus ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro sut mae'r ddarpariaeth Gymraeg yn gwella o dan y contract newydd, beth fydd y drefn a pha newidynnau a asesir.

I gloi, felly, mae'n fater o bryder a siom i ni, fel mudiad ymgyrchu, nad yw'r dyletswyddau Cymraeg a osodir drwy gontract gyda darparwyr gofal sylfaenol yn gwarchod hawliau iaith a

buddiannau cleifion, fel yr argymhellir yn *Fy Iaith Fy Iechyd* (2014) a *Mwy na Geiriau* (2016). Rydym yn cydnabod bod yr amserlen yn dynn, ond rydym yn dadlau'n gryf bod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru a phob un o'r cyrff cynrychiadol i ail-ystyried y diwygiadau yn ofalus. Yn anffodus, nid oes unrhyw un ohonom ar gael i fynychu'r sesiwn dystiolaeth ar 6ed Gorffennaf. Er hynny, hyderwn yn fawr y bydd y sylwadau ysgrifenedig hyn yn dderbyniol i chi a chawn dderbyn eich cefnogaeth.

Yn gywir

Gwerfyl Roberts

Cadeirydd  
Grŵp Iechyd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

1. <http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11476/cr-ld11476-w.pdf>

## Atodiad 1

### Enghreiftiau o ddiffyg darpariaeth cyfrwng Gymraeg yn y sector gofal sylfaenol

**Comisiynydd y Gymraeg (2014) Fy Iaith fy Iechyd: Ymholiad Comisiynydd y Gymraeg i'r Gymraeg mewn gofal sylfaenol.**

- Mae'r mwyafrif helaeth o siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal sylfaenol yn cytuno â'r egwyddorion bod "**cael cynnig gwasanaeth Cymraeg yn fater o hawl**" ac y dylai fod ganddynt "**yr hawl i gyfleo eu hunain yn Gymraeg wrth ddelio â'r gwasanaeth iechyd**" (roedd **82%** a **90%** o'r rheini a gyfwelwyd yn cytuno yn y drefn honno)
- Ond dengys canlyniadau'r ymchwiliad mai **Saesneg heb amheuaeth yw prif iaith gwasanaethau gofal sylfaenol i fwyafrif siaradwyr Cymraeg yng Nghymru**. Yn ôl yr arolwg, ar gyfartaled, **dim ond 28% o brofiadau blaenorol** siaradwyr Cymraeg gyda gwasanaethau gofal sylfaenol a gafwyd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Ond er bod 28% o gyswllt siaradwyr Cymraeg gyda gwasanaethau gofal sylfaenol yn digwydd yn Gymraeg, **dim ond rhwng 3-6% a gafodd gynnig** gwasanaeth neu awpyntiad yn Gymraeg. Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu bod **potensial gan y gwasanaethau gofal sylfaenol presennol i gau'r bwlch hwn** mewn profiad – mae darpariaeth yno y gellir ei chynnig i gleifion
- Mae'r adroddiad yn nodi **astudiaethau achos** lle cafodd siaradwyr Cymraeg broblemau gyda gwasanaethau gofal sylfaenol am nad oedd modd cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Fe'u rhennir yn **dri maes eang**, fel a ganlyn:
- **Iaith a'r gydberthynas glinigol** lle mae diffyg gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, i rai defnyddwyr gwasanaethau, yn brofiad llai cyfforddus:
  - Mae 'Alwyn' yn ei 20iau ac mae'n byw yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gyda'i frawd. Mae un meddyg sy'n siarad Cymraeg yn ei feddygfa leol ond nid yw'n cael gweld y meddyg hwn yn aml. Mae'n teimlo y gall fod yn fwy agored ar faterion iechyd pan fydd yn siarad Cymraeg a bod **cydberthynas gryfach** gyda'r meddyg oherwydd y cyswllt iaith. Pe bai'r gwasanaeth drwy'r Gymraeg fe fyddai yn llai

- 'strained,' a byddwn yn gallu agor lan mwy. Gallwn drafod materion yn well oherwydd byddai yno berthynas, hynny yw'r iaith, yno yn barod'. (BIPHDd)*
- Roedd profiad un o gyfranwyr yr ymchwil yn dangos enghraift lle mae diffyg cwrteisi yn mynd i dir camwahaniaethu yn ogystal ag achosi **risc i iechyd a lles unigolyn**. Ffoniodd y claf wasanaethau tu allan i oriau'r Meddyg Teulu wedi iddi gael damwain. Pan roddodd ei henw roedd y person ar y ffôn yn meddwl mai enw ffug ydoedd gan nad oedd yn gyfarwydd â'r enw Cymraeg. *'Wedyn mi ffoniais i'r gwasanaeth - a'r ymateb ges i wedyn oedd o'n ffiad, gofyn am enw'r claf, ac mi ddywedais fy enw, a dyma nhw'n dweud sut wyt ti'n sillafu hwn, ac mi sillafais fy enw tair gwaith, ac wedyn ges i 'that's not a name, it's a meaningless jumble of letters'. So dyma fi'n dweud gallai 'just' dweud fy llythrennau cyntaf yn lle fy enw - a'r ymateb wedyn - os 'dach chi ddim yn fodlon rhoi enw i'r claf dydw i ddim yn mynd i boeni'r meddyg.'* (BAIP)
  - **Iaith a'r ddarpariaeth glinigol** lle mae diffyg gwasanaethau (cyson) yn Gymraeg yn effeithio ar y claf, mae'r astudiaethau achos hyn yn ymwneud yn benodol â phobl hŷn, eiddil a phlant ifanc:
    - Mae 'Sara' yn ei 40au ac mae'n byw gyda'i gŵr a'i thri o blant yn ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Cymraeg yw iaith y cartref. Canfuwyd bod **angen therapi lleferydd ar ei phlentyн canol**. Yn anffodus, nid ydynt wedi gallu dod o hyd i weithiwr iechyd proffesiynol a all roi'r therapi hwn i'w mab yn Gymraeg. Yn y pen draw, penderfynodd mai'r unig opsiwn oedd iddi hi gyflwyno'r therapi gan ddefnyddio'r deunyddiau cymorth gan y therapydd di-Gymraeg. Os oedd y plentyn yn cael trafferth â'i leferydd yn ei iaith gyntaf, yna nid oedd ceisio rhoi therapi mewn ail iaith yn gwneud synnwyr iddi. *'Neb ar gael, 'so' yn y pendraw penderfynon ni, [hi a'i gŵr], a finnau mai fi oedd yn mynd i wneud y gwaith adre ... achos os ydi'r plant efo anhawster siarad trwy gyfrwng y Gymraeg sut ar y ddaear maen nhw'n mynd i ymdopi i gael y lleferydd drwy gyfrwng y Saesneg?'* (BAIP)
    - Mae 'Lucie' yn byw o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac mae'n cofio'r profiad o **fynyd â'i phlant ifanc at y deintydd**, lle nad oedd unrhyw aelod o staff yn siarad Cymraeg. Yn ystod ymwelliad cyntaf ei merch, ynghyd â'i brawd hŷn, roedd y plentyn yn gafael yn dynn ynddi. Roedd yn anodd i'r fam geisio egluro yn Gymraeg beth oedd yn digwydd wrth geisio cysuro'r plentyn ar yr un pryd. Er enghraiff, gwrthododd y plentyn ieuengaf eistedd yn y gadair am ei bod yn nerfus a 'doedd hi ddim yn deall o gwbl'. *'Frustrating', ...bydde hi wedi bod yn ddwy a hanner, a thro cyntaf iddi hi fynd at y deintydd ac oedd hi'n glynu wrtha i, roedd lolo yn y gadair yn eitha' nerfus ac wedyn o'n i'n treial gwneud yn siŵr fod e'n deall beth oedd e fod 'neud, felly oedd e'n eitha' 'stressful'.* (BIPHDd)
    - Mae 'Wil' yn byw yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda'i wraig, a'i fam yng nghyfraith fregus. Anfonwyd gweithiwr iechyd proffesiynol nad yw'n siarad Cymraeg i **asesu'r wraig oedrannus oedd â nifer o broblemau iechyd**. Nid oedd y wraig wedi arfer siarad Saesneg, a bu raid iddi frwydro i ddeall beth oedd yn cael ei drafod. Roedd yn meddwl eu bod yn trafod ei symud i gartref nyrsio gan na allai ddeall yr hyn oedd yn cael ei ddweud. Roedd y mab yng nghyfraith hefyd yn ddig oherwydd y bu'n rhaid iddo lenwi holiadur hir (yn Saesneg) mewn perthynas â'r asesiad. Yn y pen draw, penderfynodd beidio â chwblhau'r holiadur, a fyddai wedi arwain at gael help ariannol i fodloni gofynion ei fam yng nghyfraith. Ers yr ymwelliad, mae ei fam yng nghyfraith yn dal i feddwl ei bod am gael ei symud pryd bynnag y bydd yn gweld pobl yn dod i'r tŷ. Mae Wil yn credu'n gryf, pe byddai'r apwyntiad wedi bod yn Gymraeg, y byddai ei fam yng nghyfraith wedi teimlo'n llawer mwy cartrefol ac wedi gallu deall yr hyn oedd yn digwydd. *'Oedd hi ar goll*

*doedd? Dw i'n teimlo y dyla rhywun sy'n dod i weld person naw deg, siarad Cymraeg 'de'. (BIPBC)*

- **Asesiad a diagnosis ieithyddol** lle mae siaradwyr Cymraeg o'r farn bod diffyg gwasanaeth yn Gymraeg yn effeithio ar y canlyniad i'r claf:

- Mae 'Carys' yn byw gyda'i gŵr, a'u dau fab yn eu harddegau yn ardal Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Bu'n rhaid i'w mam ymweld â'r meddyg teulu i gael **prawf dementia**. Fodd bynnag, cynhalwyd y prawf yn Saesneg. 'ac mi oedd y profion i gyd yn uniaith Saesneg, ac oedan nhw'n gofyn petha eitha' cymhleth'. I waethygur sefyllfa i'w mam sy'n siarad Cymraeg, nid oedd yr un o'r meddygon yn siarad Cymraeg, a phan fu'n rhaid iddi geisio meddwl yn Saesneg, dechreuodd ddrys. 'Oedd 'na un prawf er enghraifft oedd 'na luniau ac oedd hi'n gorfod dweud be oedd be 'lly, ac oedd rhaid i mrawd a finna ada'l y stafall, a ddaethon ni nôl ag oedd hi'n 'agitated' i gyd dach chi'n gwybod, oedd hi wedi ypsetio achos oedd hi methu meddwl... achos y ffaith bod hi'n meddwl yn Saesneg'. (BIPBC). Mae Carys o'r farn, pe byddai'r prawf wedi bod yn Gymraeg, y byddai ei mam wedi ymateb yn well, ac y byddai wedi bod yn dawelach ei meddwl. Ar un adeg, dim ond y gair Cymraeg am 'delyn' y gallai ei mam ei gofio pan ofynnwyd iddi enwi nifer o ddelweddu, a dywedwyd wrthi ei bod yn anghywir. Roedd hynny'n gofio ei mam yn fawr. 'Mamiaith Cymraeg ydi hi, ond bod y prawf yn Saesneg a bod hi'n gor'od dweud y gair Saesneg, oedd 'na un enghraifft lle oedd hi 'di methu meddwl am y gair Saesneg am telyn 'de, bechod, oedd hi wedi dweud 'telyn' ac oedd y ddynes 'di dweud 'no' ynde, ac oedd mam yn gwybod mai telyn oedd y llun 'na - ac oedd hi'n methu meddwl am y gair Saesneg - a gan bod y ddynes 'ma'n uniaith Saesneg - chi'n gwybod? Oedd hynna'n 'ypset' iddi hi... y peth cynta' ddudodd hi ar ôl i ni ddod yn ôl oedd 'be ydi telyn yn Saesneg?' (BIPBC)
- Mae 'Siân' yn ei 30au ac mae'n byw gyda'i gŵr a'u dau o blant bach, yn ardal Bwrdd lechyd Prifysgol Cwm Taf. Roedd gan fab teirblwydd oed Siân apwyntiad i weld yr **ymwelydd iechyd** yn y clinig lleol i weld ei **ddatblygiad cyffredinol**. Nid oedd yr ymwelydd iechyd yn siarad Cymraeg ond nid oedd ei mab yn siarad llawer o Saesneg. 'Ac oedd hi'n gofyn iddo fe adeiladu pethe, 'neud jig-so, g'neu lluniau, ac oedd hi'n siarad Saesneg, a doedd hi ddim yn siarad Cymraeg.' (BIPCTBIPCT) Roedd Siân yn teimlo'n siomedig ac yn ddig na allai weld ymwelydd iechyd Cymraeg, 'o'n i reit siomedig, achos doedd hi methu gweld 'true reflection'. Roedd hefyd yn teimlo'n ddig am fod rhaid iddi gyfieithu popeth i'w mab; nid oedd hyn yn addas ar gyfer rhngweithio anffurfiol rhwng y gweithiwr a'r plentyn. Nid yw'r plentyn yn clywed llawer o Saesneg yn ei fywyd. Mae o'r farn, pe byddai'r rhngweithiadau wedi bod yn gyfan gwbl yn Gymraeg, y byddai'r ymwelydd iechyd wedi gallu cael darlun cywirach o ddatblygiad y bachgen a byddai hynny wedi cael ei adlewyrchu yng nghanlyniant ei brofion. 'Dw i'n siŵr y basa Gruff wedi dod allan yn well yn y prawf, dw i'n siŵr fod marcie fe wedi bod yn llai na be ddyle fe fod - ac yn 'true reflection' o'i ddatblygiad o'. (BIPCTBIPCT)

#### Owen H a Morris (2012) Effaith iaith ar adsefydlu corfforol: Astudiaeth o ddylanwad iaith ar effeithiolrwydd therapi mewn cymuned Gymraeg. Gwerddon

- Mae gwaith diweddar Owen a Morris yn **astudiaeth feintiol** i wasanaeth adsefydlu a ddarperir gan dimau cymunedol i gefnogi pobl yn eu cartrefi. DÔNT i'r casgliad: '...nad yw cleifion Cymraeg yn derbyn yr un budd o'r adsefydlu os nad yw aelodau'r tîm adsefydlu yn medru'r Gymraeg.' Maent yn awgrymu bod: 'effeithiolrwydd a deilliannau therapi yn cael eu

*dylanwadu gan ddefnydd ieithyddol. Yr oedd deilliannau therapi siaradwyr Cymraeg yn sylwedol is na deilliannau therapi siaradwyr di-Gymraeg pan gâi'r therapi ei ddarparu gan therapyddion a thîm di-Gymraeg.<sup>1</sup>*

Yn sgil canlyniadau'r ymchwiliad, awgrymodd y Comisiynydd (2014) mae **gwasanaeth o ansawdd i siaradwyr Cymraeg** yw un sydd:

- yn weledol ddwyieithog (â hunaniaeth ddwyieithog gyda deunydd ac arwyddion dwyieithog)
- yn darparu gwybodaeth glir i gleifion am y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael
- yn ymwybodol o ba staff sydd ganddo a all ddarparu gwasanaeth Cymraeg neu ddwyieithog a phryd
- â threfniadau mewn lle i ymateb i'r angen am wasanaeth Cymraeg neu ddwyieithog drwy drefnu staff a thrwy gynllunio a reciwtio bwriadus
- â staff di-Gymraeg sy'n meddu ar sgiliau a gwybodaeth i ddarparu gwasanaeth sy'n ieithyddol sensitif (ynganu enwau yn gywir; cyfarchiad dwyieithog; cydnabod hunaniaeth ac yn effro i anghenion iaith)
- â staff sy'n gwybod pan nad ydynt yn gymwys i ddarparu gwasanaeth i berson Cymraeg ei iaith a'r angen i gyfeirio'r achos ymlaen
- wedi adnabod risgiau sy'n gysylltiedig â methu â darparu gwasanaeth Cymraeg i'r claf (ee. o ran cydsyniad; asesiadau a diagnosis) ac wedi rhoi mesurau mewn lle i ddelio â risgiau o'r fath
- yn cofnodi pa iaith sydd orau gan y claf gyfathrebu yniddi ac yn rhannu'r wybodaeth hon gyda'r tîm iechyd o amgylch y claf
- yn cynnig gwasanaethau Cymraeg neu ddwyieithog yn rhagweithiol.

Mae cyfngiadau ar y ddogfen hon

Bethan Sayed AC

Cadeirydd

Y Pwyllgor Diwylliant, Y Gymraeg a Chyfathrebu

4/1/19

Annwyl Bethan Sayed AC

## **Gosod dyletswyddau Cymraeg drwy gcontract ar ddarparwyr gofal sylfaenol**

Ysgrifennwn atoch er mwyn gofyn i'r pwyllgor ystyried y dyletswyddau Cymraeg arfaethedig a luniwyd gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (gweler isod) ac sydd ar fin cael eu cyflwyno gerbron y Senedd.

Fel y gwyddoch, mae'r sector gofal sylfaenol yn gyfrifol am hyd at naw deg y cant o brofiadau cleifion yn y gwasanaeth iechyd ac, yn wir, y man cychwyn i'r rhan fwyaf ar eu taith ar hyd y llwybr gofal. Am hynny, wrth ystyried yr angen i gynllunio a darparu gwasanaethau trwy'r Gymraeg, gellir dadlau fod gofal sylfaenol yn haeddu'r brif flaenoriaeth. Yn sgil eithrio darparwyr gofal sylfaenol annibynnol o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Sector Iechyd), mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn awyddus i sicrhau fod y dyletswyddau Cymraeg a osodir drwy gcontract gyda darparwyr gofal sylfaenol yn adlewyrchu'r flaenoriaeth hon, gan warchod i'r eithaf hawliau iaith a buddiannau cleifion.

Dylai'r Llywodraeth fod yn ymwybodol o farn gref Aelodau'r Cynulliad ar y mater, fel y nodwyd yn adroddiad trawsbleidiol eich Pwyllgor ynghylch Safonau'r Gymraeg (Rhif 7)<sup>1</sup>. Fel y gwyddoch, dywed yr adroddiad:

*"Un o'r pryderon mwyaf sydd gennym ynghylch y Rheoliadau yw diffyg unrhyw hawl i gael gwasanaethau clinigol wyneb yn wyneb yn Gymraeg neu gyda chymorth Cymraeg ... **dylai'r hawl i gael gwasanaeth yn eich iaith o ddewis fod yn egwyddor sefydledig yn y sector cyhoeddus yng Nghymru,**... Mewn sawl ffordd, y Gwasanaeth Iechyd yw'r gwasanaeth cyhoeddus pwysicaf y bydd y rhan fwyaf o bobl yn ei ddefnyddio. Mae'r syniad na ddylai'r egwyddor sylfaenol hon fod yn gymwys i'r Gwasanaeth Iechyd hefyd, yn ein barn ni, yn annerbyniol."*

***"O ystyried mai gwasanaethau gofal sylfaenol yw un o'r gwasanaethau a ddefnyddir amlaf gan y cyhoedd, mae'n amlwg yn faes sy'n peri pryder.*** ... Nodwn fod y Llywodraeth yn cynnig gosod 'nifer fach o ddyletswyddau Cymraeg' ar ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol gan ddefnyddio'r contract gofal sylfaenol. Bydd hyn yn creu rhwymedigaethau cytundebol rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a'r darparwr annibynnol a orfodir gan y Bwrdd Iechyd Lleol. Rydym yn croesawu'r dull hwn ond, ***heb wybod beth fyddai'r dyletswyddau, bydd yn anodd***

***gwybod p'un a fyddant yn ddigonol i annog gwelliannau gwirioneddol mewn gwasanaethau Cymraeg.***

Fel Grŵp Iechyd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, rydym wedi craffu ar y dyletswyddau drafft, gan ddod i'r casgliad eu bod yn llawer rhy wan i annog gwelliannau o'r fath ac yn bell iawn o fodloni argymhellion adroddiad eich pwylgor. Felly, yn sgil trafod ein pryderon gyda swyddogion y Llywodraeth, roeddem yn falch o gael derbyn gwahoddiad i gynnig diwygio'r geiriad.

Fodd bynnag, ofer bu'r ymdrechion hyn oherwydd ein bod ar ddeall fod y pedwar corff cynrychiadol bellach wedi cytuno'r chwe dyletswydd wreiddiol ac nad yw'r amserlen yn caniatáu newidiadau pellach. Nid ydym yn derbyn bod hynny'n wir, gan i'r Llywodraeth honni'n wreiddiol bod 'cytundeb' rhwng y cyrff yn ein cyfarfod gyda ni, ond wedi i ni holi ymddengys nad oedd cytundeb ffurfiol, ond, yn hytrach, dealltwriaeth rhwng cyrff nad oedd ewyllys gweinyddol i'w newid. Yn ogystal, credwn yn gryf nad lle gweision sifil a chyrff anetholedig yw pennu hawliau cleifion i'r Gymraeg ond, yn hytrach, priod waith y Senedd fel ein corff democrataidd cenedlaethol.

Am hynny, rydym yn galw ar aelodau'r Pwyllgor Diwylliant, Y Gymraeg a Chyfathrebu i wneud safiad wrth i'r dyletswyddau ddod gerbron y Senedd gan ystyried cyflwyno'r diwygiadau a welir isod mewn llythrennau bras:

*Y dyletswyddau arfaethedig i'w gosod ar gontactwyr yw:*

Rhif	Cynigion Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Diwygiadau arfaethedig Cymdeithas yr Iaith
1	<i>darparu gwybodaeth i'r Bwrdd Iechyd Lleol am y gwasanaethau gofal sylfaenol mae'r contractwr yn gallu eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg</i>	<i>darparu gwybodaeth i'r Bwrdd Iechyd Lleol am y gwasanaethau gofal sylfaenol mae'r contractwr yn gallu eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg; gan rannu'r wybodaeth honno gyda chleifion ac aelodau'r cyhoedd ar wefan y contractwr ac wrth arddangos arwyddion a hysbysiadau</i>
2	<i>manteisio ar y gwasanaeth cyfieithu a gynigir gan y Bwrdd Iechyd Lleol er mwyn darparu arwydd dwyieithog wrth osod arwydd mewn cysylltiad â gwasanaethau a ddarperir ar ran y Bwrdd Iechyd Lleol</i>	<i>manteisio ar y gwasanaeth cyfieithu a gynigir gan y Bwrdd Iechyd Lleol er mwyn darparu <b>gwybodaeth a chynnig gwasanaethau Cymraeg</b> (mewn ffordd nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafrisol na'r Saesneg), gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, arwyddion, hysbysiadau, tudalenau gwe, systemau ar-lein, systemau rhngweithiol a pheiriannau hunan-wasanaeth <b>cynnig yn rhagweithiol i gleifion ac aelodau o'r</b> <b>cyhoedd unrhyw fersiwn Gymraeg o'r ddogfen a'r</b> <b>ffurflenni a ddarperir i'r contractwr gan y Bwrdd</b> <b>Iechyd Lleol, gan sicrhau bod y ddogfennaeth</b> <b>Gymraeg ar gael ar yr un pryd, ac yr un mor</b> <b>hwylus, ag unrhyw fersiwn Saesneg</b></i>
3	<i>Rhoi ar gael i gleifion a ac aelodau o'r cyhoedd unrhyw fersiwn Gymraeg o'r ddogfen a ffurflenni a ddarperir i'r contractwr gan y Bwrdd Iechyd Lleol</i>	<i>annog eu staff sy'n siarad Cymraeg i wisgo bathodyn / llinyn a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol sydd yn gefleu bod y sawl sy'n ei wisgo yn</i>
4	<i>annog eu staff sy'n siarad Cymraeg i wisgo bathodyn a ddarperir gan y Bwrdd</i>	<i>Tudalen y pecyn 57</i>

	<i>lechyd Lleol sydd yn cyfleoedd y sawl sy'n ei wisgo yn gallu siarad Cymraeg</i>	<i>gallu siarad Cymraeg <b>neu yn dysgu Cymraeg;</b> a rhannu'r wybodaeth honno gyda chleifion ac aelodau'r cyhoedd ar wefan y contractwr ac wrth arddangos arwyddion a hysbysiadau</i>
5	<i>annog a darparu cyfleoedd ar gyfer eu staff i fynychu cyrsiau hyfforddiant a digwyddiadau a drefnwyd gan y Bwrdd lechyd Lleol, a rhoi ar gael i'r staff wybodaeth a ddarparwyd gan y Bwrdd lechyd Lleol, i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg a dealltwriaeth o sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle</i>	<i>rhyddhau staff i fynychu cyrsiau hyfforddi a digwyddiadau a drefnwyd gan y Bwrdd lechyd Lleol, a rhoi ar gael i'r staff wybodaeth a ddarparwyd gan y Bwrdd lechyd Lleol, i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg, i'w <b>dysgu, neu</b> <b>gloywi eu Cymraeg a dysgu</b> sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle</i>
6	<i>annog cofnodi'r cynnig rhagweithiol a dewis iaith cleifion</i>	<i>cofnodi'r cynnig rhagweithiol a dewis / angen iaith cleifion; a <b>throsglwyddo'r wybodaeth honno</b> <b>wrth gyfeirio cleifion ar hyd y llwybr gofal ac at</b> <b>wasanaethau eraill</b></i>

Yn ogystal â'r chwe phwynt uchod, mae'r Gymdeithas yn gryf o'r farn y dylid ychwanegu'r dyletswyddau canlynol er mwyn annog darparwyr i flaengynllunio o ran recriwtio a dyrannu staff sy'n siarad Cymraeg:

- 1. *hwyluso gwasanaethau wyneb yn wyneb yn Gymraeg, gan gynnwys mewn derbynfeydd a lleoliadau gwasanaeth eraill;***
- 2. *hwyluso cyfarfodydd personol yn Gymraeg, gan gynnwys cyfarfodydd sy'n ymwneud â lles personol.***

Nodwyd pwysigrwydd eithriadol y ddau gymal uchod gan eich pwylgor yn eich adroddiad ar y mater y llynedd.

Ymhellach, credwn fod angen yn y cytundeb rôl swyddogol er mwyn i'r Comisiynydd fonitro a gorfodi'r amodau iaith yn ddo, megis drwy gymal sy'n amlinellu rôl ffurfiol yn broses gwyno.

Hyderwn yn fawr y bydd ein sylwadau uchod yn dderbyniol i chi a chawn dderbyn eich cefnogaeth.

Yn gywir

Gwerfyl Roberts

Cadeirydd, Grŵp Iechyd, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Kirsty Williams AC

Y Gweinidog Addysg

Llywodraeth Cymru

7 Mai 2019

Annwyl Kirsty,

Diolch am eich ymateb i'm hymholiad ynghylch addysgu hanes a diwylliant Cymru mewn ysgolion.

Ers imi anfon fy llythyr, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cwricwlwm i Gymru 2022. Bydd y Pwyllgor yn edrych ar y cwricwlwm mewn rhagor o fanylder yng nghyd-destun ein hymchwiliad yn ystod yr wythnosau nesaf. Diolch am drefnu bod eich swyddogion ar gael i roi gwybodaeth i ni am y cwricwlwm drafft newydd.

Fel rhan o'n hymchwiliad, gwnaethom hefyd ysgrifennu at Estyn i ofyn pa wybodaeth sydd ganddo. Cawsom grynodeb ganddo o dystiolaeth o'i adolygiad thematig o arfer da yn y dyniaethau ac enghreifftiau o'i waith arolygu.


Mewn ymateb i'n cwestiwn ar ddichonoldeb cynnal adolygiad thematig o'r pwnc hwn, dywedodd Meilyr Rowlands:

‘Byddwn yn croesawu'r cyfle i gynnal adolygiad thematig mwy cynhwysfawr o addysgu hanes a diwylliant Cymru trwy ein cylch gwaith blynnyddol. Gwyddoch fod y Gweinidog Addysg wedi ysgrifennu ataf yn ddiweddar yn amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer adolygiadau thematig yn ein cylch gwaith blynnyddol ar gyfer 2019–2020. Mae lle i gynnal un adolygiad ychwanegol bob blwyddyn. Efallai yr hoffech drafod gyda'r Gweinidog p'un a ellid cytuno ar y gwaith hwn fel eitem ychwanegol eleni. Fel arall, gellid ei ystyried fel rhan o gylch gwaith blynnyddol y flwyddyn nesaf i Estyn.’

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe byddech yn ystyried gofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o addysgu hanes a diwylliant Cymru fel rhan o'r cylch gorchwyl ar gyfer 2019–20. Rydym yn awyddus i ddeall nid yn unig sut mae dysgwyr yn ymgysylltu â hanes eu gwlad ond i ba raddau y caiff ei addysgu a sut y caiff hyn ei asesu.

Gofynnaf ichi ymateb i'r cais hwn erbyn 31 Mai er mwyn i mi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhanddeiliaid a alwodd am ymchwiliad i'r pwnc hwn.

Yn gywir,



Bethan Sayed

Cadeirydd y Pwyllgor



Ein cyf/Our ref: MA-P/KW/1784/19

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Bethan Sayed AC  
Y Cadeirydd  
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CAERDYDD  
CF99 1NA

23 Mai 2019

Annwyl Bethan,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Mai ynghylch gwaith Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu sydd ar y gweill ar ei ymchwiliad i addysgu hanes a diwylliant Cymru mewn ysgolion.

Rydych yn gofyn imi ystyried gosod y dasg ar Estyn i ymgymryd ag adolygiad thematig ar addysgu yn y maes pwnc hwn, fel rhan o gylch gwaith blynnyddol 2019-20.

Fel y'i nodwyd yn eich llythyr, mae'n wir bod lle am adolygiad ychwanegol ar bwnc dewisol i'w gynnal yn 2019-20. Nodaf sylwadau'r Prif Arolygydd mewn perthynas â'r mater hwn. Byddaf yn trafod y mater gyda'r Prif Arolygydd ac yn cysylltu â chi â'r wybodaeth ddiweddaraf maes o law.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 64

Vaughan Gething AC,

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru

10 Mai 2019

Annwyl Vaughan,

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019**

Rwy'n nodi y cafodd y Rheoliadau sy'n ymwneud â safonau'r Gymraeg ar gyfer darparwyr gofal iechyd sylfaenol, gan gynnwys meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr ac optegwyr, eu gosod ddoe. Rwyf hefyd yn nodi bod disgwyl iddynt ddod i rym ar 30 Mai 2019.

Rwy'n eithriadol o bryderus nad yw'r Pwyllgor wedi cael digon o amser i'w trafod, yn enwedig ar ôl i mi bwysleisio pa mor bwysig oedd hi i ni gael mwy na 21 diwrnod i'w trafod pan wnaethom ni edrych ar y set flaenorol o Reoliadau ym mis Mawrth y llynedd.

Fe wnaeth adroddiad ein Pwyllgor bwysleisio bod angen mwy o amser i'w trafod, ac fe wnes i godi hyn yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Mawrth. Fe wnes i sôn bryd hynny am ein rhwystredigaeth gyda'r amserlen frysio a'r ffaith bod ein rhanddeiliaid a'n Haelodau yn teimlo nad oedd digon o amser i drafod goblygiadau'r ddeddfwriaeth yn iawn.

Mewn ymateb i'n pryderon, dywedodd Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol:

'Rydw i'n ymwybodol iawn nad ydych chi wedi cael lot o amser i edrych ar hyn, ond rydym ni wedi cydymffurfio â'r 21 diwrnod sydd fel arfer yn cael eu cydnabod. Ond rydw i yn derbyn efallai y gallwn ni edrych ar ehangu hynny, os mae hynny wedi creu problem y tro

yma. Ond dyna'r ffordd y mae wastad wedi cael ei wneud. O ran egwyddor, rydw i'n meddwl y gallwn ni edrych ar ymestyn yr amser yn y dyfodol.'

O ystyried y sylwadau hyn, ysgrifennodd Clerc y Pwyllgor at swyddogion Llywodraeth Cymru yn Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a Llywodraethiant dair gwaith rhwng mis Rhagfyr a mis Ionawr i gadarnhau y bydd gan y Pwyllgor fwy na'r isafswm o 21 diwrnod i ymgynghori ar y rheoliadau a chraffu arnynt. Ni chafwyd ymateb.

Rwy'n siŵr y gallwch ddeall felly pa mor siomedig ydw i o weld ein bod ni unwaith eto wedi cael y cyfnod lleiaf posibl i graffu ar y darn pwysig hwn o is-ddeddfwriaeth.

Yn wir, drwy bennu 30 Mai fel y dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym, sy'n cynnwys cyfnod gwyl y banc, diwrnod braint a chyfnod y toriad, rydych chi i bob pwrpas wedi rhoi 10 diwrnod gwaith yn unig i ni i ymgynghori â'n rhanddeiliaid, trafod y mater hwn ac adrodd arno i'r Cynulliad.

Nid wyf yn barod i amharu ar waith y Pwyllgor drwy ruthro drwy'r gweithgaredd hwn. A fydd ech cystal â gohirio'r dyddiad dod i rym tan y drydedd wythnos ym mis Mehefin? Mae'n hanfodol bod gennym amser i graffu'n iawn ar y ddeddfwriaeth oherwydd ei phwysigrwydd i'r grŵp hwn o ddefnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gofal sylfaenol.

Yn ystod y ddadl am y set flaenorol o Reoliadau sy'n ymwneud â darparwyr gofal sylfaenol, fe wnaeth y Gweinidog gydnabod fod hwn yn fater dadleuol a bod angen ei drafod yn drylwyr â phawb y bydd yn effeithio arnynt.

Oherwydd bod hwn yn fater brys, a fydd ech cystal ag ymateb drwy e-bost neu drwy ffonio cyn gynted â phosibl neu ofyn i un o'ch swyddogion siarad â Chlerc y Pwyllgor, Martha Howells. Ei manylion cyswllt yw [REDACTED]  
neu [REDACTED]

Yn gywir,

Bethan Sayed.

Bethan Sayed

Cadeirydd y Pwyllgor



Ein cyf/Our ref MA - L/VG/0447/19

**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Bethan Sayed  
Cadeirydd  
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

20 Mai 2019

Annwyl Bethan,

Diolch i chi am eich llythyr ar 10 Mai.

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd Gwladol (y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 yn ymwneud â rhoi dyletswyddau iaith Gymraeg, yn hytrach na safonau, ar ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol drwy gontactau a thelerau gwasanaeth gofal sylfaenol perthnasol. Bydd y dyletswyddau yn cael eu cynnwys yn y Rheoliadau a ganlyn ('y Rheoliadau Gwasanaethau') –

- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013

Cafodd ein dull gweithredu o ran y darparwyr gofal sylfaenol annibynnol ei rannu gyda'r Pwyllgor yn ystod proses graffu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 ('Rheoliadau 2018') ar gyfer y sector iechyd ac ymgynghorwyd arnynt gyda chyrff cynrychioliadol y darparwyr gofal sylfaenol annibynnol drwy ymgynghoriad ym mis Chwefror 2018 h.y. –

- Cadeirydd Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru
- Cadeirydd Pwyllgor Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol Cymru
- Cyfarwyddwr Cenedlaethol, Cymdeithas Ddeintyddol Prydain yng Nghymru
- Cadeirydd Fferylliaeth Gymunedol Cymru
- Cadeirydd Optometreg Cymru

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 68**

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cynhaliwyd trafodaethau hefyd gyda Chomisiynydd y Gymraeg ar y 6 dyletswydd ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol annibynnol yn ystod 2018/19. Nododd Comisiynydd y Gymraeg, gan nad oeddent wedi bod yn ddarostyngedig i gynlluniau iaith Gymraeg yn flaenorol, ac yn seiliedig ar gapasiti a gallu mewn gofal sylfaenol, ei bod yn fodlon bod y dyletswyddau yn rhesymol a phriodol ar hyn o bryd ar gyfer y darparwyr gofal sylfaenol annibynnol.

Bydd y dyddiad y daw'r dyletswyddau i rym, sef 30 Mai, yn cyd-fynd â'r dyddiad y daw mwyafrif Safonau'r Gymraeg i rym ar gyfer y sector iechyd, yn unol â'r hysbysiadau cydymffurfio ar gyfer byrddau iechyd a gyflwynwyd gan y Comisiynydd ar 30 Tachwedd. Mae dyletswyddau'r darparwyr gofal sylfaenol annibynnol yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth safonau iaith Gymraeg ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol o ran gofal sylfaenol.

Mewn ymateb i'r cwestiynau a anfonwyd dros e-bost, siaradodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyda swyddogion yng Nghomisiwn y Cynulliad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd y Rheoliadau ac, ar ôl cadarnhau'r sefyllfa, rhoi gwybod iddynt y byddai'r rheoliadau yn cael eu gwneud drwy'r weithdrefn negyddol. Fel y gwyddoch, dan Reolau Sefydlog 21 a 27, does dim darpariaeth i Bwyllgor ac eithrio Pwyllgor cyfrifol, h.y. y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, roi gwybod am offeryn sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Ond, rwy'n cydnabod diddordeb y Pwyllgor yn y diwygiadau a hoffwn gynnig cyfarfod briffio technegol gyda fy swyddogion.

Nid yw ein dull gweithredu o ran y darparwyr gofal sylfaenol annibynnol wedi newid ers inni ei rannu wrth ystyried Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 ('Rheoliadau 2018') ar gyfer y sector Iechyd. Oherwydd bod y broses yn dilyn gweithdrefn penderfyniad negyddol a bod y dyletswyddau a ddaw i rym yn cyd-fynd â Safonau'r Gymraeg ar gyfer hysbysiadau cydymffurfio'r sector iechyd, nid wyf yn fodlon gohirio. Beth bynnag, oherwydd bod yr Offeryn Statudol eisoes wedi'i lunio, ni allwn ohirio'r dyddiad y daw i rym gan y byddai'n golygu diddymu ac ail-lunio'r Offeryn Statudol a byddai unrhyw newidiadau iddo yn golygu ailagor yr ymgynghoriad a'r cytundeb gyda'r cyrff cynrychioliadol.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AC/AM**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Llywodraeth Cymru

3 Mai 2019

Annwyl Dafydd,

Diolch i chi am eich ymateb i'm llythyr ynghylch y cymorth a ddarperir i orsafoedd radio cymunedol.

Mae'n galonogol clywed y bwriedir defnyddio gorsafoedd radio cymunedol mewn perthynas ag ymgyrchoedd arfaethedig y Llywodraeth ynghylch Rhianta Cadarnhaol a Thasglu'r Cymoedd, a bod mwy o gyfleoedd wedi'u nodi i'w defnyddio yn y dyfodol. Rwy'n ddiolchgar ichi am ysgrifennu at yr holl asiantaethau y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i hyrwyddo eich ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus i'w hatgoffa i gynnwys radio cymunedol yn eu cynlluniau hysbysebu.

A wnewch chi ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am werth hysbysebion y Llywodraeth ar radio cymunedol, sy'n cael ei choladu gan y rheolwr Fframwaith, pan fydd y wybodaeth honno ar gael? Bydd y manylion hyn yn rhoi darlun cliriach i ni o'r graddau y mae radio cymunedol yn cael ei gefnogi gan y Llywodraeth.

Bydd y Pwyllgor yn cynnal digwyddiad yng Nghaerdydd i randdeiliaid ym maes radio cymunedol ar 20 Mehefin. Rydym wedi gwahodd cynrychiolwyr i drafod y materion y mae'r sector radio lleol a radio cymunedol, yn arbennig, yn eu hwynebu, a byddwn yn cael cyfle bryd hynny i ystyried eich ymateb yn fanylach. Cyn hynny, hoffwn ofyn am ragor o wybodaeth am y cymorth ariannol a allai fod ar gael i'r sector.


Mewn ymateb i'n hargymhelliaid bod Llywodraeth Cymru yn adfer y Gronfa Radio Cymunedol, dywedasoch:

'nid yw ein safbwyt mewn perthynas ag ailgyflwyno'r Gronfa wedi newid a byddai angen ystyried hyn yn unol â blaenorriaethau eraill y mae angen rhoi sylw iddynt. Byddai angen gwneud achos cryf i ddangos y byddai Cronfa newydd yn ychwanegu gwerth sylwedol at argaeledd ac effaith radio cymunedol ledled Cymru, yn enwedig tra bod gorsafoedd yng Nghymru eisoes yn gallu gwneud cais am arian gan y Gronfa Radio Cymunedol a weithredir gan Ofcom.'

A allwch egluro pa feini prawf a gaiff eu defnyddio i benderfynu a oes achos cryf wedi'i wneud dros ailsefydlu'r gronfa? Gall y wybodaeth honno lywio ein trafodaethau yn y digwyddiad rhanddeiliaid. Mae'r rhai a fydd yn mynd i'r digwyddiad eisoes wedi nodi eu bod yn awyddus i fynd i'r afael â'r mater hwn ar y diwrnod hwnnw, a hoffwn ddarparu gwybodaeth i'n Haelodau ymlaen llaw.

A wnewch chi ymateb i'r cais hwn erbyn 31 Mai er mwyn i mi gael cyfreithiau ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhanddeiliaid a alwodd am ymchwiliad i'r pwnc hwn?

Yn gywir,



Bethan Sayed

Cadeirydd y Pwyllgor



Ein cyf/Our ref: MA - P/DET/0364/19

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Bethan Sayed AC  
Cadeirydd  
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

21 Mai 2019

Annwyl Bethan,

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 3 Mai mewn perthynas â radio cymunedol yng Nghymru.

Yn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor, ac yn fy ngohebiaeth dyddiedig 9 Ebrill, amlinellais ein safbwyt mewn perthynas â Chronfa flaenorol Llywodraeth Cymru ar gyfer Radio Cymunedol.

Mae'r cyfryngau wedi esblygu'n sylweddol yn ystod y blynnyddoedd diwethaf. Mae'r ffyrdd y mae pobl yn dod o hyd i wybodaeth ac yn ei defnyddio yn newid, gan gynnwys ar lefel leol. Nid yw'n eglur felly a fyddai Cronfa newydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Radio Cymunedol yn effeithio ar sut y mae pobl yn cael gwybodaeth leol fel y gwnaeth o'r blaen – yn enwedig gan fod gorsafoedd yng Nghymru yn gallu ymgeisio am gyllid o'r Gronfa Radio Cymunedol a weithredir gan Ofcom. Nid ydym yn ymwybodol bod gan y sector radio cymunedol yng Nghymru unrhyw bryderon am gronfa Ofcom. Y llynedd, gwnaeth Ofcom wahodd ceisiadau i wella'r gwasanaeth presennol ac i ehangu gwasanaethau radio cymunedol. Deallwn fod gorsafoedd yng Nghymru wedi dangos cryn dipyn o ddiddordeb<sup>1</sup>. Mae Ofcom yn dal i brosesu'r ceisiadau ar hyn o bryd.

<sup>1</sup>Gweler yr adran o'r enw "Coverage improvement and extension requests" yma <https://www.ofcom.org.uk/manage-your-licence/radio-broadcast-licensing/monthly-updates/radio-broadcast-update-march-2019>

Pe bai sylfaen dystiolaeth gref yn cael ei darparu a fyddai'n dangos yn glir unrhyw effeithiau arwyddocaol ychwanegol y gallai cronfa newydd yng Nghymru eu cael ar y cyfryngau presennol, byddai'n cael ei hystyried yn unol â blaenorriaethau cystadleuol a phwysau cyllidebol eraill.

Fel yr amlinellwyd yn fy llythyr dyddiedig 9 Ebrill, gofynnwyd i asiantaethau hysbysebu ddarparu manylion i'r Rheolwr Fframwaith am waith ymgysylltu y maent yn ei wneud ar ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru, ynghyd â gwerth hysbysebu. Bydd hyn yn ein galluogi o hyn ymlaen i gasglu'r manylion a'r gwerthoedd hyn bob chwe mis a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor pan fydd y set gyntaf o ffigurau ar gael.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC**

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Vaughan Gething AC  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

29 May 2019

Annwyl Vaughan

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Cwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019**

Yn ei gyfarfod ar 20 Mai, trafododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Rheoliadau uchod.

Mae'r Pwyllgor am gadarnhau'r pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn ei lythyr atoch, dyddiedig 10 Mai. Rydym yn cydnabod bod yr amserlen i drafod y Rheoliadau hyn yn cydymffurfio â'r rheol "21 diwrnod". Fodd bynnag, rydym yn ategu'r pryder nad yw hyn wedi rhoi digon o amser ar gyfer gwaith craffu ar yr achlysur hwn.

Yn ogystal, mynegodd y Pwyllgor bryder bod y Memorandwm Esboniadol a atodir i'r Rheoliadau wedi'i osod yn Saesneg yn unig ar adeg ein cyfarfod. Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei Memoranda Esboniadol yn Saesneg yn bennaf, yn unol â Rheol Sefydlog 15.4, ac rydym yn nodi y trefnwyd bod fersiwn Gymraeg o'r Memorandwm Esboniadol hwn ar gael ers hynny. Fodd bynnag, rydym yn siomedig o hyd oherwydd yr oedi wrth ei lunio ac, yn dilyn hynny, hoffem ofyn am ragor o eglurhad gennych ar bolisi Llywodraeth Cymru ynghylch cyfieithu dogfennau o'r fath.

Yn gywir



**Mick Antoniw AC**  
Cadeirydd



Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.  
We welcome correspondence in Welsh or English.

cc: Bethan Sayed AC, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu  
Dai Lloyd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

